# Bundle Health Board - Welsh 15 February 2022


1 22/48 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd

2 22/49 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

3 22/50 Datgan Buddiannau

4 22/51 Gwasanaethau Fasgwlaidd - Nick Lyons

22.51 - RCS 2 vascular paper 15 Feb (002) - Cymraeg.docx

5 22/52 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

*10.03.22*

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod a dyddiad:**<br>**Meeting and date:** | Cyfarfod Cyhoeddus Eithriadol o'r Bwrdd<br>15 Chwefror 2022 |
| **Cyhoeddus neu Breifat:**<br>**Public or Private:** | Cyhoeddus |
| **Teitl yr Adroddiad:**<br>**Report Title:** | Briff cychwynnol ar ôl derbyn "Adroddiad ar 44 cofnod clinigol yn ymwneud â llawdriniaeth fasgwlar ar ran BIPBC" gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon ym mis Ionawr 2022. |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:**<br>**Responsible Director:** | Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Awdur yr Adroddiad**<br>**Report Author:** | Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Craffu blaenorol:**<br>**Prior Scrutiny:** | Dim |
| **Atodiadau**<br>**Appendices:** | Y Cynllun Gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd wedi'i ddiweddaru mewn ymateb i ran o adroddiad y RCS a chrynodeb o gamau gweithredu Rhan 2 er hwylustod. |

**Argymhelliad / Recommendation:**

Nodi derbyn ail ran adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a thrafod y cynllun gweithredu a fydd hefyd yn cael ei adrodd i'r Fforwm Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion ym mis Mawrth 2022.

**Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval** | | **Ar gyfer Trafodaeth For Discussion** | | **Ar gyfer sicrwydd For Assurance** | | **Er gwybodaeth For Information** | **X** |

| | |
|---|---|
| **Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol**<br>**Y/N i nodi a yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol** | **N** |

**Sefyllfa / Situation:**

Ym mis Medi 2020, gofynnodd y Bwrdd Iechyd i Goleg Brenhinol y Llawfeddygon gynnal adolygiad o Wasanaeth Fasgwlaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan gynnwys adolygiad o gofnodion clinigol.

Cafodd rhan gyntaf yr adroddiad hwnnw ei derbyn gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2021 ac mae wedi cael ei monitro gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fasgwlaidd, ac yn fwy diweddar gan y Grŵp Llywio Fasgwlaidd. Mae hyn wedi cael ei oruchwylio'n agos gan y Bwrdd.

Yn nhymor yr Hydref 2021,

- Sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Gwasanaethau Fasgwlaidd i sicrhau mwy o gyflymder wrth ddarparu llwybrau sy'n arwain at y gwasanaeth fasgwlaidd.
- Dechreuodd y gwaith o integreiddio'r gwahanol gynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â gwasanaethau Fasgwlaidd a llwybrau Fasgwlaidd mewn un Cynllun Gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd.
- Cyflwynwyd adroddiadau o ansawdd uchel a straeon cleifion i'r Grŵp Llywio Fasgwlaidd.

Ym mis Tachwedd 2021, derbyniodd y Bwrdd adroddiad blynyddol y Gofrestrfa Fasgwlar Genedlaethol (NVR) a oedd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch dilysrwydd data a gyflwynwyd ar gyfer yr archwiliad cenedlaethol a'r pryderon hirdymor ynghylch canlyniadau fasgwlar, er y nodwyd rhai gwelliannau diweddar yn y canlyniadau hynny.

Ym mis Ionawr 2022, derbyniodd y Bwrdd ail ran yr adroddiad, ar ôl cwblhau'r adolygiad o nodiadau clinigol. Mae'r adroddiad hwn, y dylid ei ddarllen ochr yn ochr yn ochr â'r rhan gyntaf, yn gwneud argymhellion ychwanegol sy'n cael eu crynhoi yn y papur hwn ac sydd bellach wedi'u hintegreiddio a'u goruchwylio yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd cyffredinol. Mae ail ran yr adroddiad yn adolygu nodiadau gofal rhwng 2014 a 2021, sy'n cwmpasu'r cyfnod cyn canoli gwasanaethau fasgwlaidd yn ogystal â chyfnodau gofal mwy diweddar.

**Cefndir / Background:**

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2012 *"Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid*" yn ystyried cynnig bod "llawdriniaethau rhydwelïol cymhleth yn cael eu darparu mewn un ysbyty acíwt yng Ngogledd Cymru" ac "y byddai gwasanaethau a gofal fasgwlaidd arferol cyn ac ar ôl llawdriniaethau yn parhau i gael eu darparu ym mhob un o'r tri ysbyty acíwt". Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ar 18 Ionawr 2013, cymeradwyodd y Bwrdd argymhelliad i "cyfuno gwasanaethau llawfeddygol rhydwelïol yn un ganolfan arbenigol" gydag Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei ffafrio fel lleoliad ar gyfer hynny. Fe wnaethant hefyd gymeradwyo argymhelliad "y dylid hwyluso'r cam hwn drwy symud yn weithredol dros dro i 2 ganolfan rhydwelïol (Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam) yn ystod 2013".

Roedd Adolygiad o'r Gwasanaeth gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon ym mis Tachwedd 2015 yn argymell "y dylid rhoi model un ganolfan [ar gyfer y gwasanaethau fasgwlaidd] ar waith cyn gynted â phosibl yng Ngogledd Cymru" a bod "y tîm adolygu o'r farn mai safle (Canolog) Glan Clwyd oedd y dewis mwyaf priodol ar gyfer safle rhydwelïol ar hyn o bryd".

Nododd y Bwrdd hefyd mewn adroddiad ym mis Mawrth 2019 bod gan y "sefydliad y capasiti a'r gallu i sefydlu'r cyfleuster newydd [yn YGC] a fyddai'n mynd yn fyw ar 10 Ebrill 2019" ac agorodd y ganolfan fasgwlaidd ym mis Ebrill 2019.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i fonitro gweithrediad y rhwydwaith yng ngweithdai'r Bwrdd, cyfarfodydd briffio'r Bwrdd a chyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd ers hynny, a derbyniwyd adroddiad gan y Cyngor Iechyd Cymuned ym mis Mai 2020 a oedd yn tynnu sylw at brofiadau niweidiol cleifion yn y Gwasanaeth Fasgwlaidd.

Mae Rhwydwaith Fasgwlar Gogledd Cymru sydd ar waith ar hyn o bryd yn parhau i fod yn gyson â phenderfyniad y Bwrdd i ganoli a mabwysiadu model prif ganolfan gyda chapasiti priodol ar gyfer cleifion ar y 3 safle acíwt.

Nid oes unrhyw adolygiad allanol, gan gynnwys ail ran adolygiad y RCS a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2022, wedi cynnig bod cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer "gwasanaeth cyfun" yn 2013 yn cael ei hailystyried. Mae model y rhwydwaith yn cyd-fynd â'r rhai sy'n bresennol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

## Asesiad a Dadansoddiad / Assessment & Analysis

Yn 2021, roedd rhan gyntaf adroddiad yr RCS yn cynnwys 22 argymhelliad yn ymwneud â diogelwch cleifion a gwella gwasanaethau. Cafodd yr argymhellion eu derbyn yn llwyr gan y Bwrdd a gwnaed cynnydd wrth roi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod llwybrau fasgwlaidd o'r ansawdd gorau yn cael eu darparu'n gyson ac yn gynaliadwy ledled Gogledd Cymru.

Mae ail ran yr adroddiad yn gwneud 9 argymhelliad manwl pellach, yn seiliedig ar yr adolygiad o'r nodiadau o 2014-2021 sy'n cynnwys y canlynol:

1. Yr angen i ddarparu cyngor dilynol i rai cleifion, a chyfathrebu â nhw, o ganlyniad i'r adolygiad achos
2. Yr angen i adolygu gofal rhai cleifion i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r canlyniadau ar gyfer y cleifion hynny
3. Yr angen i adolygu canfyddiadau'r adolygwyr yn fanwl mewn perthynas â'r achosion a adolygwyd
4. Yr angen i adolygu trefniadau'r tîm amlddisgyblaethol ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth fasgwlar
5. Yr angen i adolygu'r arferion rhoi caniatâd a chofnodi'r trafodaethau hynny yn unol â'r safonau diweddaraf
6. Yr angen i archwilio nodiadau clinigol a safonau cadw nodiadau clinigol
7. Yr angen i wella ansawdd cofnodion clinigol
8. Ystyried gweithio'n agosach gydag Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Athrofaol Lerpwl
9. Cynnwys Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Athrofaol Lerpwl yn nhrafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol, yn enwedig mewn perthynas â'r llwybrau ymlediadau fasgwlar

Mae'r argymhellion hyn, yn enwedig mewn perthynas â gwaith y Tîm Amlddisgyblaethol, yn adeiladu ar yr argymhellion blaenorol a dderbyniwyd yn 2021 ond maent hefyd yn darparu meysydd ychwanegol i'w gwella. Mae rhai o'r argymhellion hyn, ond nid pob un, eisoes yn cael sylw yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd.

Yn Atodiad 1 y papur hwn mae Cynllun Gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd wedi'i ddiweddaru mewn ymateb i'r argymhellion hyn. Hefyd, mae camau gweithredu cynnar ychwanegol wedi'u datblygu gyda thimau clinigol a gweithredol i sicrhau bod y camau gweithredu'n effeithiol a bod gwersi'n cael eu dysgu, nid yn unig yn y gwasanaeth fasgwlaidd, ond hefyd yn ehangach ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Datblygu Panel Ansawdd Gwasanaethau Fasgwlaidd a fydd, gyda chymorth a dilysiad allanol, yn adolygu'r nodiadau clinigol ac yn cynnal adolygiad thematig ychwanegol o

nodiadau yn ôl yr angen ar draws BIPBC. Bydd y grŵp hefyd yn ceisio rhoi sicrwydd bod sampl gynrychiadol o nodiadau wedi cael ei ystyried. Disgwylir y bydd Cadeirydd annibynnol ar gyfer y panel hwn yn cael ei benodi cyn bo hir, gan roi safbwynt allanol a sicrwydd bod yr argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn.

- Adolygu'r nodiadau presennol a'r broses rhoi caniatâd mewn gwasanaethau fasgwlaidd yn ogystal â datblygu capasiti arweinyddiaeth glinigol pellach i oruchwylio a gweithredu safonau
- Cytuno mewn egwyddor i weithio'n agosach gyda Lerpwl, yn enwedig mewn perthynas â thrafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol ond hefyd o ran safonau ehangach a ddatblygwyd a chymorth clinigol
- Datblygu cynllun cyfathrebu agored a thryloyw yn unol ag Egwyddorion Caldicott, gan gynnwys ymgysylltu â theuluoedd a chleifion o fewn proses adolygu'r Panel Ansawdd
- Trafodaethau â Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr arferion proffesiynol a allai arwain at gamau rheoleiddio
- Cymorth ar gyfer staff sy'n rhan o'r gwasanaeth fasgwlaidd ond hefyd yn ehangach ar draws y Bwrdd Iechyd

Disgwylir trafodaeth deir-ran yn genedlaethol ar 11 Chwefror 2022 a'r gobaith yw rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar pan fydd y papur hwn yn cael ei ystyried.

**Opsiynau a ystyriwyd / Options considered**

Mae'r angen i sicrhau dilysiad allanol a sicrhau effeithiolrwydd camau gweithredu o fewn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd yn cael ei ystyried.

**Goblygiadau Ariannol / Financial Implications**

Mae cynnig manwl ar gyfer gofynion ychwanegol y gweithlu i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth fasgwlaidd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

**Dadansoddiad Risg / Risk Analysis**

Mae'r gofrestr risg yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ar ôl derbyn y cynllun hwn i adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch cleifion.

**Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance**

Mae unrhyw oblygiadau cyfreithiol mewn perthynas ag ansawdd caniatâd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr mewn perthynas â safonau proffesiynol.

**Asesiad Effaith / Impact Assessment**

Yn cael ei ystyried ar hyn o bryd